# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Sara Jones**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd
yn Canolfan Tregarth.
**Nos Iau 19 Chwefror 2026 am 18.30**

**PRESENNOL:**
Y Cynghorydd Gareth P Williams
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Mary Hayes
Y Cynghorydd Dafydd Roberts
Y Cynghorydd David Roberts
Y Cynghorydd John Jones
Y Cynghorydd Anwen Jones

1. **Croeso:** Croesawyd pawb i'r cyfarfod yn enwedig y Cyngorydd newydd John Jones sydd yn cynrychioli ward St Anns gan y Cadeirydd, Cyng. Mary Hayes

   **Ymddiheuriadau** gan y Cyngr. Iwan Hywel. Mair O Pierce, Huw Jones, Bethan Roberts, Lowri Jones, Sian Bedias

2. **Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol:** Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15ed o Ionawr 2026.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion:**

**3.1 Mynedfa Lôn Las Ogwen ger Modurdy Pandy**:
Dal heb dderbyn ymateb; mae'r Clerc wedi gwneud ymholiad pellach.
**3.2 Pecyn Budd Cymunedol Zip World**:
Dal i ddisgwyl ymateb, y clerc i tynnu oddiwrth y cofnodion nes bod yna ymateb i gael.
**3.3 Parcio ar Lôn Dinas (ger yr A5)**:
Y Clerc i tynnu oddiwrth y cofnodion gan fod wedi derbyn ymateb.
**3.4 Parc y Bwlch, Mynydd Llandygai** – Y Clerc wedi gofyn wrth CNC am diweddariad, y clerc i tynnu oddiwrth y cofnodion nes bod yna ymateb.
**3.5 Defnydd o chwynladdwyr, Braichtalog** – Y clerc wedi gofyn wrth CG, y clerc i tynu oddiwrth y cofnodion nes bod yna ymateb.

**4. Gohebiaeth**
Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Chwefror 2026'
**4.1 Bwrdd Partneriaeth Llechi Cymru**:
Mae yna cyfarfod yn chael iw gynnal diwedd mis Chwefror, os mae yna unrhyw fater yn ymwneud a'r Dynodiad Safle Treftadaetth Byd iw codi, cysylltwch gyda Cyng. Dafydd Roberts.
**4.2 Llinellau Melyn ger A5 Canolfan Cwm Idwal**:
Y Cyngor yn cytuno fod llinellau melyn angen bod yno i osgoi unrhyw damweinau ac i adael traffic symud yn haws yn y lleoliad.

**4.3 Cyngor Gwynedd - 30mya yn Stâd diwydiannol Llandygai**:
Y Cyngor yn hapus i cefnogi newid cyflymder yn y stâd.
4.4 **Un Llais Cymru – Cofnodion Arfon**
Yr cynghorwyr iw ddarllen.

**5. Ymgeisydd am Sedd Wag y Cyngor:**
Y Clerc wedi derbyn dau ymgeisydd ir sedd wag. Y Clerc ar cadeirydd wedi darllen allan i'r cynghorwyr y ddau cais. Y Clerc i ofyn am cyngor gan y cyn clerc i gwneud y siwr bod y proses yn gywir.

**6. Rhoddion 2026**
Y Cyngor i penderfyny y rhoddion mis nesaf, gan fod does yna ddim llawer o rhoddion wedi cael ei derbyn ac llawer o cynghorwyr ddim yn y cyfarfod. Y Cyngor yn cytuno i yrru ebost i Llais Ogwan i rhoid yr hysbyseb i fyny eto.

**7. Gwaith y Mis**
Cytuno Cefnogi llythyr – Y Clerc i gyrru y llythyr ynglyn a rhaglen antur gyfrifol a wnaethom trafod yn y cyfarfod mis dwaethaf.
John Jones wedi bod o amgylch yn cerdded – Y lonydd angen ei edrych ar yn Mynydd Llandygai, St Anns ac Yr Ocar.
David Roberts – Hen Turnpike angen ei edrych ar, mae'r lôn yn cael ei dinistrio gan y dŵr sydd yn dod lawr.
Gareth Williams - Coed sydd yn tyfu allan o'r lôn wrth yr afon wedi tori ond y Cyngor ddim yn gwybod pwy sydd yn perchen ar y safle. Beryg pan mae pobol yn cerdded wrth ymyl y lôn.

**8. Adroddiad Cynrychiolwyr**
**-** Ebost gan Sian:
- 5 Chwefror - Sesiwn craffu llyfrau plant fel rhan o broses hunanarfarnu Ysgol Tregarth
- 10 Chwefror - Cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Tregarth

**11. Taliadau**
Y Cyngor yn derbyn y taliadau mis yma:

| Talai | Ffurf | Manylion | Swm £ |
|---|---|---|---|
| TAW | BACS | TAW Llyfrgell | £19.43 |

**11. Ceisiadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C18/0767/16/LL** | Coed Wern, Glasinfryn<br>Datblygiad llety gwyliau (cynllun diwygiedig) sy'n golygu:- Gosod sylfeini ar gyfer cabannau gyda decio cysylltiedig. Gosod sylfeini ar gyfer podiau glampio. Seilwaith cysylltiedig i gynnwys ffyrdd mewnol, mannau parcio, systemau draenio cynaliadwy ynghyd a draenio dŵr aflan. Tirlunio meddal a chaled gan gynnwys torri rhai coed, cadw coed ac ymgymryd â gwelliannau i'r goedlan bresennol. Codi derbynfa/adeilad gwerthiant ynghyd ac ail-orchuddio'r adeilad presennol a'i ddefnyddio fel hwb e-beicio gyda phwyntiau gwefru trydan.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0004/16/LL** | Land at Maes Talog, Tregarth |

Codi annedd marchnad agored sengl deulawr a garej ddwbl ar wahân.
**Penderfyniad:** ar y gweill.

| | |
|---|---|
| **C24/0219/16/LL** | Clwb Criced Bangor, Ffordd Llandygai<br>Cael gwared ar ardal ymarfer bresennol [0.02 ha] ac adeiladu ardal ymarfer newydd wedi'i gwella a'i chynyddu [0.03 Ha]<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0258/16/DT** | 19 Llwybr Main, Mynydd Llandygai<br>Gosod Pwmp gwres ffynhonnell aer ar flaen yr annedd<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0711/16/LL** | Tanysgafell Isaf, Coed y Parc<br>Adeiladu trac mynediad graean 3m o led newydd i'r safle er mwyn caniatáu mynediad i'r adeiladau a'r safle<br>**Penderfyniad:** Gwrthodwyd. |
| **C24/0787/16/DT** | 1 Llwybr Main, Mynydd Llandygai,<br>Estyniad unllawr ochr a newidiadau mewnol i annedd presennol<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

**12. Ceisiadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C24/0801/16/CC** | Pont Sarnau, Bethesda<br>Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed<br>**Penderfyniad:** Dim sylw. |
| **C24/0847/16/DT** | 4, Fron Ogwen, Tregarth<br>Adeiladu ystafell ardd yng nghefn y tŷ yn cynnwys ystafell ymolchi a chegin fach i'w defnyddio fel rhan atodol i'r tŷ annedd<br>**Penderfyniad:** Argymell gwrthod y cais, oherwydd mae tŷ gwyliau yw defnydd yr annedd ar hyn o bryd, felly nid 'ystafell ardd' fydd hwn, ond estyniad i'r tŷ gwyliau. Cymdogion lleol wedi cysylltu â'r Cyngor i godi eu pryderon ynglyn â problemau parcio a 'overlooking' i dai a gerddi cyfagos. |
| **C24/0878/16/HY** | Uned 7, Parc Bryn Cegin, , Llandygai<br>Gosod arwyddion wedi'u goleuo a heb eu goleuo<br>**Penderfyniad:** Cefnogi |
| **C24/0982/16/LL** | Tanysgafell Isaf Tanysgafell, Coed Y Parc<br>Adeiladu trac mynediad graean 3m o led newydd i'r safle er mwyn caniatáu mynediad i'r adeiladau a'r safle |

**Penderfyniad:** Argymell gwrthod, cyflwyno'r un sylwadau ag o'r blaen

**13. Unrhyw fater brys arall**
**- Dim.**

**14. Crynodeb Llais Ogwan**